

**Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos Lun, 10 Mai
2016 yn y Ganolfan Gymunedol, Capel Curig**

Presennol: Richard (RR) – Cadeirydd, Iolo (IPR), Eryl (EO), Sian Shakespear (SS), Eirwen (E), Gwyn (GW), Myfyr (MT)

Hefyd yn bresennol – Clive James ar gyfer y drafodaeth ar eitem 2

Ymddiheuriadau: Sian Williams, Dewi, Gareth, Mark, Elen, Iolo (ap Gwynn)

1.	<p><u>COFNODION</u></p> <p>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11eg o Ionawr, 2016 fel rhai cywir.</p> <p>Materion yn codi</p> <p><u>Eitem 3 – Cardiau Cyhoeddusrwydd</u></p> <p>Adroddodd RR ei fod wedi derbyn y cardiau cyhoeddusrwydd yr oedd IAG wedi eu trefnu ac y byddai'n trefnu i'w dosbarthu yn y dyfodol agos.</p>
2	<p><u>LLYFRYN MYNYDDA</u></p> <p>A. Cyffredinol</p> <p>Adroddwyd gan EO fod pob pennod bellach (heblaw am un) wedi ei gyrru i'r Wasg ac y byddai'r cwbl wedi eu trosglwyddo iddynt erbyn diwedd yr wythnos. Rhoddodd amlinelliad o strwythur y llyfr i'r pwyllgor.</p> <p>Nododd hefyd bod y mapiau ar ei gyfer bron yn barod i gyd a bod y Panel Llundain wedi bod yn trefnu tynnu lluniau o 'r teithiau hynny lle roedd prinder lluniau wedi eu derbyn eisoes gan yr aelodau (y mwyafrif ohonynt yn Ne Cymru)</p> <p>Byddai'r Wasg yn paratoi a gwirio proflenni ar gyfer y llyfr ac yn eu gyrru i EO. Byddai yntau'n trefnu i awduron y teithiau gael cyfle i daro golwg drostynt ac fe gytunwyd hefyd y dylid gofyn i RR ddarllen drwyddynt er sicrhau cysondeb ac edrych am unrhyw wallau ieithyddol.</p> <p>B. Cymorth Ariannol</p> <p>Croesawyd Clive, a oedd wedi bod yn ymchwilio i wahanol ffyrdd o dderbyn cymorth ariannol tuag at y gost o gynhyrchu'r llyfr, i'r cyfarfod.</p> <p>Adroddodd Clive fod ei fod wedi adnabod y ffynonellau canlynol:</p> <p>Cyngor Mynydda Prydeinig - £1,000 Parc Cenedlaethol Eryri – wedi cytuno i gyfrannu £500 tuag at gostau'r argraffu</p> <p>Roedd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol y Bannau ffynhonnell bosib o gymorth ariannol ond er mwyn cymhwyso am unrhyw gymorth byddai'n rhaid trefnu amryw o weithgareddau yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni, ar faes yr Eisteddfod ac amryw o deithiau lleol a oedd wedi eu cynnwys yn y llyfr</p> <p>Ei fod hefyd wedi cael ar ddeall fod gan y Cynulliad ffynhonnell posib o gymorth ariannol yn gysylltiedig a Blwyddyn Antur 2016 ac y gellid ystyried gwneud cais am gymorth a fyddai'n cael ei ystyried wrth ochr ceisiadau gan fudiadau eraill am gefnogaeth o gronfa ariannol gyfyngedig</p> <p>Cytunwyd (i) diolch i Clive am ei gymorth a'i holl waith diwyd yn ymchwilio am ffynonellau i gynorthwyo gyda cynhyrchu'r llyfr</p> <p>(ii). Penderfynu oherwydd mai amser cyfyngedig sydd gan y Clwb ar gyfer cynhyrchu'r llyfr, bod yn rhaid canolbwyntio ar y gwaith o'i baratoi a'i gyhoeddi ac o ganlyniad na fyddai'n ymarferol i ymgymryd ag ymrwymadau ychwanegol i geisio cwrdd a chanllawiau cyrff fel Parc Cenedlaethol y Bannau er derbyn cymorth ariannol.</p>

C Lansiad/Cyhoedduswydd

Cytunwyd (i) mai lansio y llyfr yn ystod mis Tachwedd (ar ôl cyfarfod blynyddol y Clwb) ac mewn da bryd ar gyfer y farchnad lyfrau Nadolig fyddai orau ac y dylid trafod hyn hefo'r Wasg

(ii) gan na fyddai'r pwyllgor yn cwrdd eto tan diwedd Medi/dechrau Hydref ac i hwyluso trefniadau, dylid sefydlu panel o'r aelodau canlynol i wneud unrhyw benderfyniadau a threfniadau angenrheidiol ar gyfer y lansiad ac unrhyw drefniadau cyhoedduswydd. Dylai'r panel adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ei weithgareddau yn y cyfarfod nesaf:

Eryl, Eirwen, Sian (S), Gwyn, Elen

CH. Teitl

Ar ôl trafod aeth ar yr awgrymiadau a dderbyniwyd gan EO, cytunwyd i roi'r enwau canlynol ar restr fer y gellid eu trafod hefo'r Wasg fel teitl posib ar gyfer y llyfr:

Crwydro Copaon Cymru
Cam i'r Copa
Crwydro Cynefin

3 EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2016 - DARLITH

Adroddodd SS fod Gerall Pennant wedi cytuno i draddodi'r ddarlith eleni ac byddai'n digwydd ym Mhabell y Cymdeithasau rhwng 4.30-5.30 ar y dydd Mercher (3 Awst). Teitl y ddarlith fyddai "Coes Glec, Mascara, Mynyddoedd Duon". Bydd angen ystyried trefnu cael posteri er mwyn rhoi cyhoedduswydd i'r ddarlith.

Nodwyd hefyd y bydd Dwynwen yn arwain taith Pedol Grwyne Fawr ar y dydd Iau (4 Awst) yn ystod yr wythnos.

Cytunwyd (i) gofyn i SS gysylltu hefo Maldwyn i drefnu cael cyflewnad o bosteri maint A4 ac A5 i roi cyhoedduswydd i'r ddarlith

(ii) y byddai RR yn mynd â nhw i lawr i'r Eisteddfod ac byddai ef a GW yn trefnu eu dosbarthu o gwmpas y maes

4 CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB

Adroddodd EO bod y rhaglen o deithiau am y cyfnod Mai i Fedi wedi ei dosbarthu bellach. Roedd un bwllch ar 11eg Mehefin lle roedd yr arweinydd arfaethedig wedi gorfod tynnu'n ôl. Byddai'n trefnu i gael taith arall i lenwi'r bwllch

Holodd os oedd awydd i'r Clwb gynnal penwythnos preswyl fel ag a wnaed yn y gorffennol yn Ne Cymru ac Ardal y Llynnoedd.

Adroddodd IPR y byddai'r Clwb yn cynorthwyo Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyda'r gwaith o chwalu rhai o'r carneddau niferus sydd wedi ymddangos ar Gader Idris ar ddydd Sadwrn 9fed Gorffennaf ac ei fod yn gobeithio y byddai nifer sylweddol o aelodau'r Clwb yn gwirfoddoli i helpu. Adroddodd MT bod y carneddau ar y mynydd yn niferus iawn ac y byddai angen cryn ymdrech i wneud unrhyw argraff arnynt.

Cytunwyd (i) diolch i EO am lunio rhaglen ddiddorol iawn o weithgareddau

(ii) gan fod yna ddigon o ddewis ar gael yn yr ardal, dylid anelu i gynnal penwythnos preswyl yn Ardal y Llynnoedd yn niwedd Medi/dechrau Hydref eleni.

5 RHAGLEN HYFFORDDIANT & DIWRNOD BLASU/TREFNIADAU GLAN-LLYN

Diwrnod Blasu

Adroddodd EO fod yna fwiad i drefnu taith fel diwrnod blasu ar ddydd Sadwrn 25 Mehefin yn Ogwen

Myfyrwyr

Adroddodd RR ei fod wedi cysylltu gyda Chlybiau Dringo a Chymdeithasau Cymraeg Prifysgolion Cymru i holi os y byddai eu haelodau hefo diddordeb mewn ymuno â'r Clwb ar un o'r teithiau. Roedd heb dderbyn ymateb ac fe fyddai'n cysylltu gyda nhw eto.

Gwersyll yr Urdd, Glan-Llyn

Roedd RR wedi cael cyfarfod hefo swyddogion Gwersyll yr Urdd Glan-Llyn ac roeddynt yn awyddus i drefnu gweithgaredd ar y cyd hefo'r Clwb ar gyfer teuluoedd a phobl ifanc. Rhagwelwyd y byddai hyn yn digwydd yn Hydref/Tachwedd.

6 CYFARFOD BLYNYDDOL

Adroddodd IPR y byddai'r cyfarfod blynyddol yn cael ei gynnal eleni yng Ngwesty'r Oakley Arms ym Maentwrog ar ddydd Sadwrn, 5 Tachwedd, 2016

Byddai angen ethol is-gadeirydd newydd yn y cyfarfod a gofynnodd i'r aelodau roi ystyriaeth i hyn erbyn cyfarfod nesaf y pwyllgor. Hefyd byddai'n fuddiol cael un neu ddau o aelodau newydd i ddod ar y pwyllgor y tro hwn hefyd.

Gan y bydd y llyfr Mynydda yn cael ei lansio yn ystod mis Tachwedd cytunwyd y dylid gofyn i EO roi cyflwyniad byr iddo ac hefyd gofyn i Aneurin Phillips os y byddai'n fodlon dangos ychydig o'r lluniau a fydd yn ymddangos ynddo. Gellid hefyd ystyried gwerthu copiau o'r llyfr i aelodau fydd yn bresennol yn y cyfarfod.

7 OFFER

Adroddodd MT nad oedd unrhyw offer wedi ei brynu ar gyfer y Clwb yn ddiweddar.

O safbwynt offer caled/metal nid oedd angen prynu eitemau ychwanegol am y tro. Fodd bynnag, gyda rhaffau roedd yn bryderus braidd am gyflwr stoc y clwb ac o ba ddefnydd a wnaed ohonynt. Nododd fod y mwyafrif o ddringwyr a oedd yn aelodau o'r Clwb hefo offer eu hunain ac felly nid oedd llawer o ddefnydd yn cael ei wenud o raffau'r Clwb. Hefyd dylai cofnod gael ei gadw o'r defnydd a wneir ohonynt fel y gellid monitro eu cyflwr. Gan nad oedd unrhyw gofnod wedi cael ei gadw roedd yn anodd asesu eu cyflwr ac yn sgil hynny roedd yn anfodlon o'i rhoi allan i'w defnyddio

Cytunwyd yn sgil y diffyg defnydd a'r cymlethodau gyda monitro eu defnydd, na ddylai rhaffau sydd ym meddiant y clwb gael eu defnyddio bellach ac hefyd na ddylid prynu rhai newydd am yr un rhesymau Gellid adolygu'r sefyllfa ar ôl 12 mis i weld pa effaith mae'r penderfyniad yma wedi ei gael ac os oes angen ei adolygu.

8 Y GWASANAETH BYSUS SHERPA.

Mynegodd GW ei bryder am y diffyg darpariaeth ar gyfer teithio yn Eryri gyda bws, ac yn benodol y gwasanaeth bws Sherpa. Credai fod y diffyg darpariaeth yma yn cyfrannau at barcio mewn mannau amhriodol o gwmpas ardal Penygwryd. Mae diffyg yn y darpariaeth yn yr ardaloedd hynny tu allan i ardal Llanberis – Pen y Pass ac roedd y ffaith nad yw'r gwahanol gwmnïau bysiau sy'n ennill y cytundebau yn cydlyn amseroedd gyda'i gilydd yn gwneud y sefyllfa yn waeth. Nodwyd yn ddiweddar fod nifer o ymwelwyr wedi cael eu cosbi am barcio yn ardal Penygwryd a oedd yn gadael blas cas ymhlith ymwelwyr i Eryri ac yn creu argraff anghywir o ran y croeso a'r ddarpariaeth a gynigir. Byddai cael gwasanaeth bysiau Sherpa effeithiol yn helpu i liniaru'r broblem yma.

Cyfeiriodd SS at y ffaith i Gyngor Gwynedd lwyddo cael cwmni bws i dendro am y gwasanaeth S6 o Fangor i Fetws y Coed er mai dim ond ar benwythnosau y bydd hwn yn rhedeg trwy'r haf. Roedd pryderon na fydd amseroedd y gwasanaeth yma yn addas i gerddwyr wedi bod yn cerdded yn yr ardal. Teimlai hefyd yn sgil y ffaith fod y sefyllfa parcio yn Ogwen yn argyfyngus ar ddiwrnodau prysur, yn arbennig ar benwythnosau byddai'n dda gweld mwy o farchnata a chymhelliant i bobl ddefnyddio'r gwasanaeth bws drwy barcio ym Methesda

Cytunwyd hefo sylwadau GW ac y dylid ysgrifennu at adran berthnasol Cyngor Gwynedd a'r sefydliadau /unigolion eraill hefo diddordeb yn y maes (Awdurdod y Parc, aelodau Cynulliad Seneddol a.y.y.b) yn dwyn eu sylw at y diffygion

9	<p><u>MATERION C.M.P</u></p> <p>Nodwyd y bod y Cyngor wedi cynnal cyfarfod rhanbarth Gogledd Cymru ar 6ed Ebrill. Roedd pawb yn gytun ei fod yn fuddiol i gymaint â phosib o aelodau'r Clwb fynychu'r cyfarfodydd hyn (a rhai yng Nghanolbarth a De Cymru hefyd. Fodd bynnag roedd yna ansicrwydd os oedd pawb yn derbyn gwybodaeth am y cyfarfodydd yma ai peidio</p>	
9	<p><u>PARTNERIAETH AWYR AGORED</u></p> <p>Adroddwyd fod y Bartneriaeth wedi ymrwymo dros y 3 blynedd nesaf i ddarparu cyfleoedd i bobl anabl o bob oed gael cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored drwy gynnal sesiynau blasu a rhaglenni datblygu sgiliau. Roeddynt yn ystyried llwybrau ymadawol addas iddynt i mewn i glybiau gweithgareddau awyr agored yr ardal. Un ffordd o wneud hyn fyddai trwy gefnogi clybiau cymunedol drwy drefnu cyrsiau hyfforddiant am bris gostyngol a fyddai'n canolbwyntio'n benodol ar anableddau</p> <p>Cytunwyd croesawu y dablygiadau yma yng ngweithgareddau'r bartneriaeth ac er ei bod yn anodd gweld sut y byddai gweithgareddau'r Clwb yn berthnasol, dylid cysylltu hefo'r Barnertiaeth i weld os y gellid bod o gymorth trwy o bosib gynorthwyo i arwain taith flynyddol ar gyfer pobl gydag anableddau.</p>	
10	<p><u>GWASANAETH BANCIO I'R CLWB</u></p> <p>Adroddwyd bod y Trysordd, a oedd yn methu a bod yn bresennol yn y cyfarfod, wedi cysylltu i ddweud ei fod yn anhapus hefo rhai agweddau o'r gwasanaeth a dderbyniai gan HSBC fel bancwyr y Clwb. Tra roedd eu gwasanaeth arferol yn benigamp, os codai unrhyw broblem, roedd ceisiau cael cymorth ganddynt i'w datrys yn anodd iawn. Roedd am holi sut fath o wasanaeth sydd ar gael gan fanciau eraill ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor.</p> <p>Cytunwyd nodi'r wybodaeth.</p>	
11	<p><u>CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR</u></p> <p>Cytunwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal rhywbryd ym mis Medi/Hydref 2016, yng Nghapel Curig os yn bosib.</p>	